STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL I DORFAEN – DRAFFT V3 (7fed Tachwedd 2018)

CYNNWYS

Tudalen 3 – Cyflwyniad a Phwrpas y Strategaeth Toiledau Lleol

Tudalen 4 - Asesiad o Angen

- Poblogaeth, t4
- Iechyd, t5
- Cymudo a Theithio Llesol, t6

Tudalen 7 – Cyfleusterau Presennol

- Toiledau cyhoeddus sy'n eiddo i ac yn cael eu rhedeg gan CBST, t7
- Adeiladau CBST sy'n agor eu toiledau i'r cyhoedd, t7
- Gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n agor eu toiledau i'r cyhoedd, t7
- Eiddo trydydd sector sy'n agor eu toiledau i'r cyhoedd, t8
- Busnesau sy'n agor eu toiledau i'r cyhoedd, t8

Tudalen 9 - Cyfleusterau newid babanod

Tudalen 9 - Cost darparu cyfleusterau presennol CBS Torfaen

Tudalen 10 - Amserau agor

Tudalen 10 – Mynediad at Fannau Gwyrdd

- Y Gamlas, t11
- Parciau, t11

Tudalen 12 – Cydraddoldeb Mynediad – gallu siopa ble fynnwn a thalu pris teg

Tudalen 12 – Cynllun cenedlaethol Changing Places

Tudalen 13 – Cynllun Allwedd Cenedlaethol RADAR

Tudalen 14 – Ein dull strategol: Lles a'r Pum Ffordd o Weithio

- Integreiddio
- Tymor Hir
- Atal
- Cymryd Rhan
- Cydweithio

Tudalen 15 – Ein dull strategol: Ceisio cwrdd â'r angen a aseswyd

- Cyfleusterau glân, diogel ac wedi eu cadw'n dda, t16
- Cyfleusterau hygyrch i bawb, ym mhob lleoliad ymarferol, t16
- Ystyriaethau Daearyddol, t17

DRAFT

Tudalen 17 - Cadw cyfleusterau presennol CBST

- Taliadau Mynediad

Tudalen 17 – Gweithio gyda phartneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus a busnesau lleol

Tudalen 18 - Map ar-lein o gyfleusterau (Cymru gyfan)

Tudalen 19 - Gwybodaeth a hyrwyddo cyfleusterau lleol

- Arwyddion

Tudalen 20 – Datblygiadau'r Dyfodol

- Darpariaeth niwtral o ran rhywedd
- Ystyriaethau amgylcheddol

Tudalen 21 - Ymgynghoriad a Chraffu

Tudalen 21 - Adolygu, adrodd a diwygio

Tudalen 23 - Atodiadau

Tudalen 23 - Cyfeirnodau

DRAFT

CYFLWYNIAD A PHWRPAS Y STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (CBS) eisoes yn darparu nifer o doiledau cyhoeddus ar draws y fwrdeistref fel rhan o'n Gwasanaethau Cymdogaethau (Strydlun).

Ers 2003, fel rhan o'r ymateb lleol i'r Strategaeth genedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru, rydym wedi bod yn rhan o ymgyrch y Cynllun Toiledau Cymunedol cenedlaethol sy'n gweithio gyda grwpiau cymunedol a busnesau i hyrwyddo toiledau trwy ddarparu taflen o gyfleusterau ar draws y fwrdeistref, gan annog pobl i gymryd rhan ac arddangos arwyddlun cenedlaethol.

Mae mynediad i gyfleusterau toiled yn bwysig i'r holl boblogaeth ac nid yn unig pobl hŷn, er mai'r ffocws ar y boblogaeth hŷn trwy'r Strategaeth genedlaethol oedd annog pobl i barhau i fynd allan yn eu cymunedau lleol a thu hwnt. Mae diffyg toiledau cyhoeddus yn aml yn cael ei roi fel rheswm pam fod pobl hŷn yn dod yn gymdeithasol ar wahân a gall unigrwydd ddatblygu. Serch hynny, mae nifer o bobl (gan gynnwys pob iau, teuluoedd a phobl o bob oed sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd) angen mynediad i gyfleusterau toiled a gall diffyg darpariaeth eu harwain yn aml at iddyn nhw gyfyngu eu cysylltiadau cymdeithasol ag eraill.

Mae ymchwil wedi dangos bod unigrwydd yn gallu bod yn ffactor mawr mewn dirywiad mewn iechyd a lles, yn arbennig ymhlith pobl hŷn. Mae'n gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael a chyflyrau fel clefyd cardiofasgwlar, gorbwysedd, a dementia. Mae'r peryglon yn debyg i'r rheiny sydd ynghlwm wrth ysmygu a gordewdra (Holt-Lunstad, 2015 /Hawkley et al, 2010)[1] Canfyddodd yr ymchwil yma fod gan bobl unig gynnydd o 50 y cant yn y perygl o farwolaeth gynnar, o'u cymharu â'r rheiny sydd â chysylltiadau cymdeithasol da. Mewn gwrthgyferbyniad, mae gordewdra yn codi'r tebygrwydd o farw cyn 70 tua 30 y cant.

Yng Ngorffennaf 2017, cyflwynodd Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 ('y Ddeddf')[2] nifer o gamau ymarferol ar gyfer gwella a gwarchod iechyd ac mae Rhan 8 y Ddeddf yn cyflwyno darpariaeth toiledau a strategaethau toiledau lleol yn benodol.

Bwriad Rhan 8 yw sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion y gymuned mewn perthynas â thoiledau, ac yna'n datblygu dull strategol a thryloyw i gwrdd â'r angen yma yn y ffordd orau. Mae'r Ddeddf yn cydnabod y pwysau ariannol ar gynghorau felly nid yw'n mynnu bod awdurdodau lleol yn darparu toiledau cyhoeddus eu hunain ond mae'n gofyn eu bod yn gweithio gydag eraill i roi mynediad i doiledau yn eu hardal. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau cymunedol, gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn agor eu cyfleusterau ac ymgysylltu â busnesau preifat.

Nid bwriad Rhan 8 yw atal awdurdodau lleol rhag cymryd penderfyniadau y mae angen iddyn nhw eu cymryd fel rhan o'u gweithgareddau, a all gynnwys penderfyniadau i gau toiled neu adeilad cyhoeddus pan fo'n briodol gwneud. Yn lle, y bwriad yw gwella cynllunio darpariaeth fel bod hyn, pan fo penderfyniadau'n cael eu cymryd, yn digwydd yng nghyd-destun cwrdd ag anghenion cydnabyddedig eu

cymunedau. Bydd dull strategol hefyd yn helpu lleddfu unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i newid y ddarpariaeth.

Nid yw CBS Torfaen yn bwriadu cau unrhyw un o'i gyfleusterau toiled ar hyn o bryd na lleihau'r oriau agor. Mae'r partneriaid yr ydym eisoes yn gweithio gyda nhw yn dweud nad ydyn nhw'n bwriadu cau na newid mynediad i'w cyfleusterau. Os fydd newid yn y sefyllfa yma oherwydd pwysau ariannol, bydd y Strategaeth Toiledau Lleol yma'n rhoi gwybodaeth a chyfeiriad ar sut mae modd darparu mynediad i doiledau trwy wasanaethau amgen ac felly cynorthwyo'r broses o benderfyniadau gan yr awdurdod lleol.

Mae'r Strategaeth hon yn gosod allan canfyddiadau'r asesiad o angen a beth yw ein cynlluniau wrth symud ymlaen, i bobl Torfaen allu cael mynediad at gyfleusterau toiled sy'n eu cefnogi i fynd allan yn Nhorfaen.

ASESIAD O ANGEN

Ymgymerwyd ag asesiad o angen mewn perthynas â thoiledau yn ystod yr haf ac yn gynnar yn hydref 2018. Defnyddion ni Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen (2017)[3] ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent (2017)[4], er mwy deall demograffeg ein poblogaeth, amrywiaeth a lefel cyflyrau iechyd sy'n effeithio pobl yn Nhorfaen, yn ogystal â gwybodaeth gysylltiedig ar bobl yn ymadweithio â'u cymunedau.

Rydym wedi mapio'r toiledau presennol, wedi edrych ar gynlluniau teithio a ffyrdd cymudo, gan nodi gorsafoedd petrol a manwerthwyr sydd â thoiledau i gwsmeriaid, atyniadau twristiaid, parciau a mannau agored. Rydym hefyd wedi ystyried gwasanaethau cyhoeddus eraill, heblaw'r cyngor, ble mae toiledau ar gael.

Rydym wedi casglu barn pobl o ar draws y fwrdeistref trwy ein harolwg a thrwy ymweld â grwpiau cymunedol yn ystod haf 2018.

Mae'r Asesiad o Angen Toiledau Torfaen llawn i'w weld yn ***Atodiad 1***. Dyma drosolwg cryno o'n canfyddiadau.

Poblogaeth

Mae gan Dorfaen boblogaeth o tua 92,300 ac wrth i bobl fyw'n hirach, bydd canran y boblogaeth hŷn yn cynyddu. Mae blaenamcaniadau poblogaeth yn dangos y bydd canran y boblogaeth yn Nhorfaen sydd 65 oed a throsodd yn codi o 20.1% yn 2016 i 28.3% yn 2039. Disgwylir y bydd nifer trigolion Torfaen sydd 85 oed a throsodd yn mwy na dyblu yn y 23 mlynedd nesaf, o 2,372 yn 2016 i 5,595 yn 2039; cynnydd o 136% *[tarddiad: Asesiad Lles BGC]*.

Mae cadw pobl yn annibynnol ac yn gallu cymryd rhan yn eu cymunedau lleol yn ffactor bwysig mewn rheoli galw yn y dyfodol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol allweddol. Mae Heneiddio'n Dda yn rhaglen ryngwladol sy'n cael ei hybu gan Lywodraeth Cymru ac mae Cymunedau Oedran-Gyfeillgar yn un rhan o'r rhaglen hon - yn sicrhau fod pobl o bob oed yn gallu mynd at a thrin yr amgylchedd

DRAFT

naturiol ac sydd wedi ei adeiladu, a rôl toiledau wrth hwyluso hyn. Mae mynediad at gyfleusterau toiled yn rhan o'r ymdriniaeth hyn.

Mae'r Gymdeithas Toiledau Brydeinig yn gwneud argymhellion ynglŷn â'r nifer o gyfleusterau toiled y mae eu hangen mewn ardal yn seiliedig ar drwch poblogaeth, cymysgedd rhwng y rhywiau a nifer o bobl sy'n ymweld ag ardal. Argymhellir 1 ciwbicl o bob 550 o fenywod yn ddelfrydol ac 1 ciwbicl neu droethfa i bob 1100 o ddynion, sy'n gymhareb o 2:1 o blaid menywod.

Mae'n anodd cyfrif a yw'r cwotâu yma yn cael eu cyflenwi ar y cyfan yn Nhorfaen gan fod yna waith pellach i'w wneud o ran deall yr holl fusnesau sy'n rhoi mynediad i doiledau sy'n gallu mynd law yn llaw â'r cyfleusterau hynny sydd ar gael gan y Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Byddwn yn ymgymryd â dadansoddiad pellach o hyn wrth i'n hymdrechion i ddod â mwy o doiledau i mewn i'r Cynllun Toiledau Cymunedol fynd yn eu blaen. Serch hynny, mae'n werth nodi na soniwyd am nifer y cyfleusterau toiled gan unrhyw un yn ein harolwg, sy'n awgrymu nad oes amser hir i aros yn aml, os o gwbl, i gael mynediad i giwbicl.

Mae'r Gymdeithas Toiledau Brydeinig hefyd yn awgrymu y dylid darparu un toiled hygyrch ac un cyfleuster newid babanod ar gyfer pob 10,000 o bobl. Mae'r cyfleusterau toiled presennol yn Nhorfaen eisoes yn ddigonol yn y cyd-destun yma.

Iechyd

Mae Asesiad Lles 2017 i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen yn dweud wrthym ni fod gan Dorfaen gyfradd uwch o afiechyd cronig na Chymru ar y cyfan – a dyma'r achos yn y rhan fwyaf o gategorïau, yn arbennig cyfraddau salwch anadlol a lles meddyliol gwael. Mae yna nifer o gyflyrau sy'n arwain at fod pobl angen mynediad aml neu frys at doiled.

Mae ymchwil Cymuned y Bledren a'r Coluddyn[5] yn dangos fod gan tua 14 miliwn o bobl yn y DU broblem rheoli'r bledren (tua 1 o bob 5 o bobl) a bod tua 6.5 miliwn yn dioddef gyda phroblem rheoli'r coluddyn sy'n drafferthus (tua 1 o bob 10 o bobl).

Byddai allosod y ffigyrau yma yng nghyd-destun poblogaeth Torfaen (92,300) yn awgrymu fod gan tua 18,460 o bobl yn Nhorfaen broblem rheoli'r bledren a bod 9,230 o bobl yn Nhorfaen yn dioddef â phroblem rheoli'r coluddyn sy'n drafferthus.

Gall unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol arwain ar afiechyd ac yn yr un ffordd, mae pobl sy'n dioddef gydag afiechyd gyda'r coluddyn neu'r bledren, yn fwy tebygol o fod yn unig neu ar wahân.

Mae yna dystiolaeth sy'n dangos bod unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol yn gallu arwain at broblemau iechyd corfforol a meddyliol. Mae'r rhain yn broblemau sylweddol sy'n effeithio pobl o bob oed, gan gynnwys ein poblogaeth hŷn. Canfyddwyd gan ddata o'r Astudiaeth Gweithrediad Gwybyddol a Heneiddio - Cymru bod 25.3% o bobl hŷn (65 oed a throsodd) yng Nghymru wedi dweud eu bod yn unig a 26.9% eu bod yn gymdeithasol ar wahân[6].

DRAFT

Yn gyfan gwbl, roedd 42% o'r rheiny a ymatebodd i'n Harolwg Toiledau Lleol yn cytuno bod digon o gyfleusterau toiled cyhoeddus iddyn nhw allu mynd allan a chwrdd â theulu neu ffrindiau mewn lleoedd cyhoeddus, tra bod 44% yn anghytuno. Mae hyn yn torri i lawr i 50% o ddefnyddwyr toiledau hygyrch yn cytuno a 37% yn anghytuno, tra bod 38% o ddefnyddwyr Changing Places yn cytuno a 56% yn anghytuno.

Roedd tua thraean o'r rheiny a ymatebodd (roedd y canrannau'n weddol debyg ar draws y grwpiau defnyddwyr) yn teimlo bod diffyg cyfleusterau toiled addas yn eu hatal rhag mynychu lleoliadau ble mae gweithgareddau hamdden yn digwydd.

Roedd ychydig dros draean o'r rheiny a ymatebodd i'r Arolwg Toiledau Lleol yn cytuno bod diffyg toiledau cyhoeddus addas yn eu hatal rhag bod mor weithgar yn gorfforol ag y bydden nhw'n dymuno bod. Roedd hyn yn ymateb cyson ymhlith y grwpiau defnyddwyr.

Cymudo a Theithio Llesol

Ym Medi 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 sy'n gosod gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau lleol i fapio, cynllunio, gwella a hyrwyddo llwybrau sy'n cael eu hystyried yn addas ar gyfer teithio llesol. Ystyr teithio'n llesol yw cerdded a seiclo ar gyfer teithiau byr pob dydd, fel teithiau i'r ysgol, gwaith neu i fynd at siopau neu wasanaethau.

Wrth ddatblygu'r Strategaeth Toiledau Lleol yma fe ofynnon ni i drigolion Torfaen yn fras a oedden nhw wedi profi anawsterau wrth gymudo i'r gwaith oherwydd diffyg cyfleusterau toiled .

Dangosodd ein harolwg bod 31 allan o 133 (23%) o'r rhai 18-64 oed a ymatebodd yn honni eu bod wedi profi anawsterau wrth gymudo i'r gwaith oherwydd diffyg cyfleusterau toiled rhwng eu cartref a'u gweithle. Byddai angen mwy o ymchwil er mwyn gwybod manylion o ran pa mor aml y cafwyd anawsterau, dulliau teithio neu gyfatebiaeth i lwybrau teithio. Tra bod 23% yn destun pryder, trwy ein harolwg daethom i wybod fod 66% o'r rhai a ymatebodd yn y grŵp oedran yma'n teimlo nad oes yna ddigon o wybodaeth ynglŷn â ble mae toiledau cyhoeddus a'r cyfleusterau y maen nhw'n cynnig, gan awgrymu nad yw rhai, o leiaf, yn y grŵp yma'n ymwybodol o doiledau y gallan nhw eu defnyddio ar y ffordd i'r gwaith.

Dangosodd ein gwaith mapio nad yw pobl sy'n cymudo mewn car (tra eu bod yn Nhorfaen) byth mwy na 3 milltir o'r toiled agosaf ac mae ganddyn nhw bob amser doiled o fewn 6 milltir i'r cyfeiriad y maen nhw'n teithio iddo.

Yn y rhan fwyaf o achosion mae yna barcio ar gael yn agos i'r toiledau, er nad yn union i'r tu allan. Dywedodd rhai pobl ag anableddau fod hyn yn broblem.

Fe wnaethom ni hefyd ystyried pobl sy'n cymudo ar fysiau a threnau, ond doedd dim problemau amlwg y soniwyd amdanynt gan y rheiny a ymatebodd i'r arolwg gyda'r dulliau yma o deithio, nag mewn trafodaethau wyneb yn wyneb.

DRAFT

CYFLEUSTERAU PRESENNOL

Fel soniwyd yn y cyflwyniad uchod, mae gan CBS Torfaen Gynllun Toiledau Cymunedol eisoes ac mae'n rhoi gwybodaeth ar gyfleusterau y mae'r awdurdod lleol a rhai eraill yn eu darparu. Mae yna wybodaeth hefyd yn cael ei gasglu ar lefel Cymru gyfan i fapio cyfleusterau toiled ac i ychwanegu at hyn, wrth i bob awdurdod lleol ddatblygu ei Strategaeth Toiledau Lleol a nodi sefydliadau a busnesau partner ychwanegol.

Toiledau cyhoeddus sy'n eiddo i ac yn cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol

Pan fo pobl yn clywed 'toiledau cyhoeddus', maen nhw'n meddwl yn syth am flociau traddodiadol o doiledau cyhoeddus. Fel arfer mae'r rhain wedi bod yn flociau ar eu pennau'u hunain ac wedi eu hadeiladu'n bwrpasol gan ddarparu mannau ar wahân i Fenywod, Dynion ac, yn fwy diweddar, uned hygyrch ar gyfer pobl anabl.

Mae gan CBS Torfaen bortffolio o bum bloc o doiledau ar hyn o bryd, ym Mlaenafon (Lion Street); Parc Pont-y-pŵl; Neuadd y Dref, Pont-y-pŵl (Hanbury Road); Llyn Cychod Cwmbrân a Meysydd y De (ystafelloedd newid), Llanyrafon. Nid yw'r ddau floc hŷn ym Mhont-y-pŵl yn cynnwys toiledau hygyrch, er bod toiledau hygyrch ar gael yn weddol agos, yng Nghanolfan Byw'n Egnïol Pont-y-pŵl (wrth ymyl bloc toiledau Parc Pont-y-pŵl) a Llyfrgell Pont-y-pŵl (wrth ymyl Bloc Toiledau Neuadd y Dref).

Mae CBS Torfaen yn gyfrifol am gynnal a chadw, rheoli a glanhau'r blociau yma ac mae'n cyflogi staff sy'n edrych ar ôl y cyfleusterau yma.

Er mwyn cynorthwyo pobl i fwynhau'r meysydd chwaraeon, y parc sgrialu a'r llwybrau cerdded ar hyd yr afon rhwng y Llyn Cychod a Chroesyceiliog yng Nghwmbrân, mae rheolaeth o floc toiledau'r Llyn Cychod yn cynnwys agor, glanhau a chynnal a chadw toiledau yn Ystafelloedd Newid (Chwaraeon) Meysydd y De yn ddyddiol.

Adeiladau CBS Torfaen sy'n agor eu toiledau i'r cyhoedd

Rydym yn ceisio sicrhau bod y cyfleusterau toiled yn adeiladau CBS Torfaen ar gael i'r cyhoedd ble mae'r lleoliad, mynediad ac amgylchiadau'n caniatáu hynny, er enghraifft yn y llyfrgelloedd, canolfannau dysgu i oedolion a rhai o swyddfeydd y cyngor. Mae'r cyfleusterau yma'n sicrhau bod yr holl wasanaethau sy'n cael eu cynnig yn gallu cael eu defnyddio gan holl aelodau'r gymuned. Mae yna naw adeilad sy'n darparu toiledau sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac maen nhw yn yr asesiad o angen am doiledau .

Gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n agor eu toiledau i'r cyhoedd

Mae yna chwech o Gynghorau Cymuned a Thref yn Nhorfaen ac mae'r rhan fwyaf yn caniatáu mynediad i'r cyhoedd ar sail disgresiwn, pan fo staff yn bresennol. Serch hynny, gan fod staff yn gallu bod yn bresennol ar adegau afreolaidd, er mwyn rheoli disgwyliadau nid yw'r cyfleusterau yma i gyd yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd.

DRAFT

Mae Cyngor Cymuned Pont-y-pŵl yn gwneud cyfraniad ariannol tuag at gost cynnal a chadw Bloc Toiledau Neuadd y Dref ar Hanbury Road, Pont-y-pŵl.

Eiddo trydydd sector sy'n agor eu toiledau i'r cyhoedd

Mae yna nifer o wasanaethau cyhoeddus eraill yn y fwrdeistref sy'n cefnogi pobl i fynd at gyfleusterau toiled yn ystod oriau busnes. Mae'r rhain yn cynnwys pedair canolfan sy'n cael eu rhedeg gan Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen a phum sefydliad arall yn y trydydd sector. Mae'r adeiladau yma ym Mlaenafon, Garndiffaith, Pont-y-pŵl ac mewn dwy ardal wahanol yng Nghwmbrân - asesiad o angen am doiledau.

Mae ymgysylltiad pellach gyda gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau yn y trydydd sector yn rhan o'n dull strategol o ehangu mynediad at gyfleusterau toiled ar draws y fwrdeistref.

Mae rhestr o'r cyfleusterau toiled yn Nhorfaen sydd ar gael i'r cyhoedd (h.y. yn agored i gwsmeriaid a phobl nad sy'n gwsmeriaid) yn Asesiad o Angen am Doiledau Torfaen. (*Mae gennym ni restr o doiledau sydd ar ael ar hyn o bryd – o wasanaethau cyhoeddus a busnesau preifat – sydd wedi rhoi caniatâd i'w manylion gael eu cynnwys ar y map cenedlaethol. Mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad 2 a byddan nhw'n cael eu diweddaru ar gyfer cyhoeddiad y strategaeth derfynol).*

Busnesau sy'n agor eu toiledau i'r cyhoedd

Mae nifer o'r cyfleusterau toiled sy'n cael eu darparu gan fusnesau masnachol a manwerthu ar gyfer defnydd cwsmeriaid yn unig neu'n bennaf. Mae rhai siopau'n deall bod pobl yn dod i mewn i ddefnyddio'r toiledau ac yn cydnabod y gallai hyn arwain at bobl yn prynu nwyddau tra'u bod yno. Mae pedair archfarchnad fawr – ym Mhont-y-pŵl a Chwmbrân – a dwy siop fawr yn ardal siopa Canolfan Cwmbrân yn enghreifftiau nodedig, yn ogystal â'r toiledau cyhoeddus sydd gan Cwmbrân Shopping yng nghanol y dref. Mae Parc Manwerthu Cwmbrân hefyd yn darparu gofod mawr manwerthu i nifer o siopau cadwyn cenedlaethol sefydledig, ac mae dau o'r rhain yn darparu toiledau i'w defnyddio gan gwsmeriaid ac nid ydynt fel arfer yn cael eu hysbysebu fel rhai sydd ar gael i'w defnyddio gan bawb.

Mae gan Dorfaen nifer sylweddol o barciau diwydiannol sy'n gwerthu nwyddau i fusnesau ac i'r cyhoedd; mae toiledau yn yr adeiladau yma fel arfer ar gael at ddefnydd staff yn unig.

Mae gan leoliadau hamdden ac adloniant fel y sinema, lleiniau bowlio a champfeydd /canolfannau chwaraeon preifat i gyd gyfleusterau toiled at ddefnydd cwsmeriaid. Mae angen ymgysylltiad gyda'r busnesau yma i drafod y posibilrwydd o'u defnydd gan y cyhoedd ac i ganiatáu hysbysebu defnydd gan y cyhoedd.

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi uno i ysgrifennu at nifer fawr o fanwerthwyr cenedlaethol er mwyn gwybod ble maen nhw'n fodlon ymuno â'r Cynllun Toiledau Cenedlaethol, ac i'w siopau ddangos arwyddion cenedlaethol ac i ymddangos ar y map toiledau cenedlaethol. Bydd ymgysylltiad pellach gyda

DRAFT

busnesau preifat a masnachol yn rhan o'n cynllun strategol o ledaenu mynediad i gyfleusterau toiled ar draws y fwrdeistref.

Cyfleusterau newid babanod

Mae yna o leiaf un ystafell benodol ar gyfer newid babanod ym mhob un o dair prif ardal Torfaen. Yn y rhan fwyaf o doiledau eraill, mae cyfleusterau newid babanod yn cynnwys un safle newid babanod, ar ffurf bwrdd plastig pwrpasol sy'n plygu i mewn i'r wal pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Mae'r rhan fwyaf o doiledau CBS Torfaen yn darparu safle newid babanod. Nid yw'r rhain ar gael yn y ddau floc toiledau ym Mhont-y-pŵl, ond byddant yn cael eu gosod yn y flwyddyn ariannol yma. Byddwn yn edrych af ffyrdd eraill o sicrhau bod ein cyfleusterau toiled yn fwy croesawus i deuluoedd.

Mae yna rhai toiledau mewn neuaddau cymunedol sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau yn y trydydd sector ac sy'n cynnwys sedd gyda gwregys i ddiogelu plant bach ychwanegol. Nid yw'r rhain ar gael ar hyn o bryd i'r rhai nad sy'n defnyddio'r neuaddau ac eto, mae angen trafodaethau pellach i wybod am unrhyw adeiladau o'r fath sydd am gymryd rhan yn y Cynllun Toiledau Cymunedol.

Awgrymodd ymgysylltiad CBS Torfaen gyda thrigolion Torfaen bod nifer o rieni a gwarcheidwaid sydd angen cyfleusterau newid babanod yn teimlo'n anghyfforddus wrth ddefnyddio cyfleusterau busnesau heb brynu unrhyw beth. Dywedodd 86% o'r rhieni/gwarcheidwaid a gwblhaodd yr arolwg y byddan nhw'n teimlo'n fwy cyfforddus ynglŷn â defnyddio cyfleusterau newid babanod busnesau pe baen nhw'n arddangos arwydd i bwysleisio bod modd defnyddio'u cyfleusterau heb brynu unrhyw beth neu ddefnyddio'u gwasanaeth.

COST DARPARU CYFLEUSTERAU PRESENNOL CBS TORFAEN

Mae'r tabl canlynol yn dangos cost rhedeg toiledau cyhoeddus 'arunig' gan yr awdurdod lleol. Mae'r costau mewn perthynas â'r toiledau sydd mewn adeiladau cyhoeddus yn rhan annatod o'r adeilad unigol.

1) Arolygiadau Atgyweiriadau a Chydymffurfio			
Lleoliad	**2015/16**	**2016/17**	**2017/18**
Lion St, Blaenafon	1,677	1,986	1,253
Hanbury Road, Pont-y-pŵl	2,543	1,540	2,449
Parc Pont-y-pŵl	1,213	807	889
Toiled Cyhoeddus Meysydd y De	923	3,944	413
Llyn Cychod	3,173	3,359	7,953
Cyfanswm (y flwyddyn)	**9,529**	**11,636**	**12,958**
2) Costau Rhedeg			
Trydan	2,039	2,509	2,497
Trethi Annomestig	1,638	1,652	1,370
Dŵr	5,611	3,814	3,433
Sebon/pethau tafladwy/cynnyrch glanhau	6,545	6,600	6,720

DRAFT

	Casgliadau glanweithdra	1,300	1,300	1,300
	Agor a Chau (rhan o amser staff)	14,600	14,800	15,000
	Cyfanswm (y flwyddyn)	**31,733**	**30,675**	**30,320**
	Cyfanswm y Gost	**41,262**	**42,311**	**43,278**
	Cyfraniad gan Gyngor Cymuned Pont-y-pŵl *	- 12,500	- 12,500	- 12,500
	*ers 2015			
	COST NET	**28,762**	**29,811**	**30,778**

Does yna ddim cynlluniau ar hyn o bryd i gau unrhyw rai o'r cyfleusterau na lleihau'r gyllideb. Serch hynny, os bydd angen yn y dyfodol i'r cyngor ail-ystyried ei sefyllfa oherwydd pwysau ar y gyllideb, bydd y strategaeth hon yn rhoi ffordd o weithio gyda phartneriaid i ddarparu cyfleusterau amgen.

AMSERAU AGOR

Mae'r awdurdod lleol yn anelu at ddarparu mynediad i'r cyfleusterau toiled am gyhyd â phosibl am saith diwrnod yr wythnos. Serch hynny, mae ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnydd yn ymwneud â chyffuriau, fandaliaeth a graffiti i doiledau cyhoeddus yn y gorffennol wedi arwain at fod cyfleusterau arunig yn cael eu cloi ar amser penodol yn gynnar yn y nos er mwyn atal hyn rhag digwydd. Mae ystyriaethau o ran y gyllideb wedi bod yn ffactor wrth benderfynu ar amserau cau'r cyfleusterau mae CBS Torfaen yn eu darparu.

Mae defnydd o gyfleusterau sy'n cael eu darparu gan siopau a sefydliadau eraill yn gyfyngedig i'w horiau agor. Felly hefyd mae toiledau sydd gan sefydliadau yn y trydydd sector a chynghorau cymuned yn eu hadeiladau weithiau ar gael, ond dim ond pan fo staff yn bresennol.

Mae cyfleusterau toiledau 24 awr ar gael yng Ngorsaf Betrol Folly Tower ar gyrion Pont-y-pŵl ac yn Asda yng Nghwmbrân, gan roi dewis i weithwyr sifftiau a gyrwyr tacsis sy'n gweithio yn ystod y nos, tra bod nifer o archfarchnadoedd a thafarndai yn agor tan 9.00pm neu 10.00pm a 11.00pm neu hanner nos yn eu tro.

Mynediad at Fannau Gwyrdd

Rydym wedi cydnabod pryderon trigolion ynglŷn â mynediad at fannau gwyrdd; dim ond 1 o bob 5 o'r rhai a ymatebodd i'n Arolwg Toiledau Lleol oedd yn teimlo bod yna ddigon o ddarpariaeth o doiledau i'w galluogi i fynd at fannau gwyrdd a dim ond 1 o bob 10 oedd yn anghytuno y bydden nhw'n mynd at fannau gwyrdd yn fwy aml pe bai yna mwy o gyfleusterau toiled addas.

DRAFT

Y Gamlas:

Nodwydd diffyg toiledau ar hyd darnau sylweddol o Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu gan nifer o'r rhai a ymatebodd i'n Harolwg Toiledau Lleol. Tra bod yna rhai busnesau masnachol (fel tafarndai) mewn rhai rhannau, rydym yn falch o gael dweud bod cynlluniau arwyddocaol wedi eu cymeradwyo i wella mynediad at y gamlas.

Yng Ngorffennaf 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod cynllun gwerth £4 miliwn i drawsnewid Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu yn hyb antur wedi cael cymeradwyaeth ar gyfer arian gan yr UE. Bydd y cynllun yn cynnwys adeiladu Canolfan Gweithgareddau i Ymwelwyr ym Masn Camlas Pont-y-moel ym Mhont-y-pŵl, fel rhan o raglen o welliannau i'r basn. Y gobaith yw gwella'r ddarpariaeth toiledau i gynnwys gwell dyluniad a gosodiad, cyfleuster newid babanod, mynediad i bawb a chyfleusterau newid ar gyfer gweithgareddau chwaraeon dŵr. Wrth hyrwyddo'r datblygiad newydd ym Masn Camlas Pont-y-Moel byddwn yn hyrwyddo bod y cyfleusterau toiled yma ar gael.

Hefyd, trwy'r Cynllun Toiledau Cymunedol, bydd ymgysylltiad yn y dyfodol gyda busnesau ar hyd darnau eraill o'r gamlas yn ceisio'u hannog i agor eu toiledau i'r cyhoedd.

Bydd y pwyntiau mynediad yma wedyn yn cael eu hyrwyddo'n eang er mwyn codi ymwybyddiaeth o fannau hygyrch yn rhwydwaith y gamlas, gan roi i bobl sydd angen defnyddio'r toiled yn rheolaidd yr hyder i fwynhau'r gamlas, gan wella gweithgaredd corfforol a lles meddyliol.

Parciau:

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyfleusterau toiled sydd mewn neu'n agos at barciau neu fannau chwarae. Trwy waith tîm Gwasanaethau Strydlun Torfaen (a phan fo hynny'n briodol, ein Hyb Diogelwch Cymunedol) a thrwy weithio gyda phartneriaid allanol, byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau bod cyfleusterau toiled yn dal i fod ar gael yn neu'n agos at ein prif barciau, gan wneud ein gorau i wella problemau sydd wedi eu hadnabod.

Rydym yn cydnabod bod mwyafrif y parciau llai heb doiledau cyhoeddus yn agos. Er ein bod yn awyddus i deuluoedd i allu mynd at barciau ar draws y fwrdeistref, nid yw'n sefyllfa ariannol bresennol yn caniatáu i ni ddarparu toiledau mewn lleoliadau o'r fath. Byddwn yn achub ar gyfleoedd yn y dyfodol i weithio gydag unrhyw bartneriaid neu fusnesau newydd mewn ardaloedd lleol a allai agor eu cyfleusterau toiledau i ddefnyddwyr parciau. Hefyd, byddwn yn ymgysylltu a grwpiau cymunedol a all gynnig atebion i'r broblem yma mewn lleoliadau penodol.

DRAFT

Cydraddoldeb Mynediad – gallu siopa ble fynnwn a thalu pris teg:

Mae'n bwysig i bobl ag anableddau – gan gynnwys anghenion y coluddyn a'r bledren – gael mynediad teg i siopau; mae'n hanfodol eu bod yn cael profiad cymdeithasol cydradd, yr un lefel o ddewis o nwyddau a gwasanaethau ac nad ydyn nhw'n cael eu gorfodi i dalu mwy na'r gofyn am nwyddau oherwydd cyfyngiadau ar leoliadau toiledau.

Roedd 38% o bobl a ymatebodd i'r Arolwg Toiledau Lleol yn teimlo bod eu dewis o siopau wedi ei gyfyngu oherwydd diffyg toiledau addas. Cododd hyn i 63% o bobl sy'n defnyddio toiledau hygyrch a 56% o bobl sy'n defnyddio Changing Places.

Roedd 66% o bob un ag ymatebodd yn teimlo fod archfarchnadoedd yn darparu cyfleusterau toiled digonol i'w galluogi i siopa yno, er bod rhai sylwadau negyddol mewn perthynas â rhaglenni cynnal a chadw ac arwyddion dim defnydd sy'n lleihau hygyrchedd ar adegau. Mewn cymhariaeth, roedd 48% yn teimlo fod gan ganol trefi gyfleusterau toiledau digonol i'w galluogi i siopa yno, ac roedd dim ond 22% yn teimlo fod gan ystadau manwerthu a masnach gyfleusterau toiledau digonol i'w galluogi i siopa yno.

Dywedodd pobl sydd angen toiledau hygyrch wrthym y bydden nhw'n hoffi gwybod a yw'r cyfleusterau toiled yn addas ar eu cyfer cyn iddyn nhw fynd i mewn i adeilad.

Er mwyn cefnogi pobl i ddefnyddio'r cyfleusterau toiled cywir byddwn y gweithio gyda busnesau bach a masnachwyr lleol yn ein canolfannau trefol i hyrwyddo'r cyfleusterau toiled hygyrch yn yr ardaloedd yma, gan nad yw pobl efallai'n gwybod amdanyn nhw.

Fel rhan o'r Cynllun Toiledau Cymunedol byddwn yn annog busnesau mewn ystadau manwerthu/masnachu i osod eu cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd. Bydd pob un o'r busnesau o'r fath sy'n cymryd rhan yn cael eu hyrwyddo trwy'r Cynllun.

Cynllun cenedlaethol Changing Places

Mae toiledau hygyrch fel arfer yn giwbicl mwy sydd â rhai canllawiau, basnau a sychwyr isel i helpu pobl sy'n anabl / yn defnyddio cadair olwyn. Dydyn nhw ddim yn cwrdd ag angen pob person sydd ag anabledd.

Mae pobl sydd ag anableddau dysgu dwys a niferus, yn ogystal â phobl ag anableddau corfforol fel anafiadau i'r cefn, distroffi cyhyrol a sglerosis ymledol yn aml angen cyfarpar ychwanegol i'w galluogi i ddefnyddio'r toiledau yn ddiogel ac mewn ffordd gyfforddus. Mae'r anghenion yma'n cael eu diwallu gan doiledau Changing Places.

Mae pob toiled Changing Places yn darparu:

Cyfarpar cywir:

- Mainc newid ar gyfer oedolion y mae modd newid ei uchder
- System codwr trac, neu godwr symudol os nad yw hyn y bosibl

Digon o le:

- Lle digonol yn y man newid i'r person anabl a hyd at ddau o ofalwyr
- Toiled wedi ei osod yn ganolog gyda lle ar y naill ochr a'r llall
- Sgrin neu len ar gyfer peth preifatrwydd

Amgylchedd diogel a glân:

- Rhôl papur llydan i orchuddio'r fainc
- Bin gwastraff mawr ar gyfer padiau tafladwy
- Llawr gwrth-lithr

Mae toiledau Changing Places yn wahanol i doiledau hygyrch arferol (neu "doiledau i'r anabl") a, ble bo hynny'n bosibl, dylent gael eu darparu yn ogystal â thoiledau hygyrch.

Mae gan doiled Changing Places fesuriadau a gofynion penodol a gall ond fod yn doiled Changing Place os yw'n cwrdd â Safonau Changing Places, yn seiliedig ar BS8300:2009.

Dim ond un cyfleuster toiledau Changing Places yn Nhorfaen ar hyn o bryd ac mae hwn yn:

- Archfarchnad ASDA Cwmbrân, Llewelyn Road, Cwmbrân, NP44 1UL

Byddai angen arian sylweddol i ddatblygu toiledau Changing Places newydd. Mae amcangyfrif y gost ar gyfer toiled Changing Places yn amrywio ond mae tua £12,000 - £15,000 gan gynnwys TAW [*ffynhonnell:* www.changing-places.org]. Serch hynny, bydd costau cyfarpar yn amrywio yn dibynnu ar y cyfarpar penodol a ddewisir.

Mae yna gostau pellach i ddarparu toiled Changing Places a bydd y rhain yn amrywio'n dibynnu ar y lleoliad. Er enghraifft:

- costau adeiladu os oes angen newidiadau strwythurol i adeilad
- costau cynnal a chadw
- costau diogelwch

Bydd CBS Torfaen yn cefnogi'r meysydd gwasanaeth yna a mudiadau allanol i gael arian i ddarparu cyfleusterau Changing Places newydd yn Nhorfaen.

Cynllun Allwedd Cenedlaethol RADAR

Datblygwyd y Cynllun Allwedd Cenedlaethol, sy'n cael ei adnabod weithiau fel y cynllun RADAR, oherwydd bod rhaid i rai toiledau cyhoeddus ar gyfer pobl anabl, gael eu cloi er mwyn atal difrod a chamddefnydd. Atebwyd hyn trwy eu cloi ar wahân i doiledau eraill. Mae'r Cynllun Allwedd Cenedlaethol yn ceisio rhoi mynediad annibynnol i'r toiledau a ddarparwyd ar eu cyfer i ddeiliaid allwedd anabl a chynyddu'r tebygrwydd o fod y cyfleusterau mewn cyflwr y gellir eu defnyddio.

DRAFT

Gall y rheiny sydd angen cyfleusterau o'r fath allwedd i gael mynediad i doiledau RADAR ar draws y DU. Mae manylion yn:

https://www.bluebadgecompany.co.uk/blog/radar-keys-locked-disabled-toilets-explained/

Mae toiledau RADAR yn Nhorfaen yn:
Lion Street, Blaenafon; Marchnad Dan Do Pont-y-pŵl; Monmouth Square a'r Orsaf Fysiau (ill ddau yn Ardal Siopa Cwmbrân); Llyfrgell Cwmbrân; Canolfan Chwaraeon a Chymdeithasol Woodland Road, Croesyceiliog a'r Llyn Cychod, Llanyrafon. Mae yna doiledau RADAR pellach mewn busnesau masnachol fel tafarndai ac archfarchnadoedd ac mae pawb sy'n prynu allwedd RADAR yn derbyn gwybodaeth am leoliadau.

Does gan CBS Torfaen ddim cynlluniau i newid y trefniadau presennol mewn perthynas â mynediad trwy Allwedd Radar. Nid ydym chwaith yn ymwybodol o unrhyw bartneriaid na busnesau sy'n ystyried ychwanegu neu dynnu i ffwrdd cloeon y Cynllun Allwedd Cenedlaethol.

EIN DULL STRATEGOL

LLES A'R PUM FFORDD O WEITHIO

Mae lles pobl yn bwysig ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol gan ei fod yn ein helpu i gadw'n iach neu'n gallu rheoli unrhyw afiechyd neu gyflwr yn well. Mae cael mynediad i'r awyr agored ar gyfer chwarae, ymarfer corff a hamdden; gallu mynd i'r ysgol neu'r gwaith; gallu gwneud tasgau dydd i ddydd fel siopa, ymweld â ffrindiau neu grwpiau cymdeithasol; a theimlo'n ddiogel, yn rhai o'r pethau sy'n helpu'n lles. Hefyd dyma'r prif bethau y mae pobl yn dweud wrthym sy'n bwysig iddyn nhw, ac mae gwybod bod cyfleusterau toiled ar gael ar eu cyfer ar adegau fel hyn yn golygu eu bod yn gallu teimlo'n hyderus wrth fynd allan.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dau ddarn o ddeddfwriaeth i wella lles; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ddwy Ddeddf yna'n gofyn i wasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru ystyried a gwella lles y lleoedd yr ydym yn byw ynddyn nhw a'r bobl sy'n byw yma.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol yn cyflwyno pum ffordd o weithio y mae'n rhaid eu gweithredu gyda phob datblygiad polisi a gwasanaeth er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau gallwn i wella lles. Wrth ddatblygu'r Strategaeth Toiledau Lleol yma rydym wedi:

DRAFT

Integreiddio	Edrych ar rannau eraill o weithgareddau busnes a rhanbarthol y Cyngor fel trafnidiaeth gyhoeddus a chynlluniau teithio, parciau a mannau agored, llyfrgelloedd a safleoedd treftadaeth, felly gallwn weithio tuag at fod pobl yn gallu mynd i doiledau tra'n teithio neu'n defnyddio'r lleoedd yma.
Tymor hir	Edrych ar leoliad y cyfleusterau toiled y mae'r Cyngor yn eu rhedeg a'n cynlluniau ar gyfer cynnal a chadw ac adnewyddu yn y dyfodol. Nodi'r bylchau a sut allwn weithio gyda phartneriaid i ddarparu cyfleusterau toiled yn yr ardaloedd hyn.
Atal	Ystyried pwysigrwydd toiledau mewn perthynas ag arwahanrwydd cymdeithasol a gweithgaredd corfforol ac effaith hyn ar angen pobl am wasanaethau iechyd yn y dyfodol. Edrych ar y gost a'r adnoddau eraill y mae eu hangen i ddarparu a chynnal a chadw cyfleusterau toiled a sut allwn atal lleihad yn y dyfodol. Edrych ar yr ardaloedd ble nad oes cyfleusterau toiled a nodi gwasanaethau cyhoeddus eraill, adeiladau cymunedol neu fusnesau preifat y gallwch ofyn iddyn nhw i roi cyfleusterau ar gael yn y dyfodol.
Cymryd Rhan	Ymgysylltu â phobl ar draws Torfaen a gofyn am eu barn ar gyfleusterau toiledau, pa broblemau sydd ganddyn nhw, beth allai fod yn rhai o'r atebion. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth yma i gynllunio'n gweithgareddau a byddwn yn cadw mewn cysylltiad â phobl sydd wedi dangos diddordeb arbennig yn y gwaith yma. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gwrando ac yn cydweithio i ddarparu cyfleusterau toiledau sy'n lân ac yn ddiogel i bobl eu defnyddio.
Cydweithio	Gweithio gyda rhai o'n partneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i adnabod cyfleusterau ychwanegol yn ogystal â'r rheiny y mae'r Cyngor yn eu defnyddio. Mae gennym waith pellach i wneud gwaith pellach yn y maes hwn er mwyn gwneud y mwyaf o fynediad i doiledau yn Nhorfaen.

CEISIO CWRDD Â'R ANGEN A ASESWYD

Mae dadansoddiad manwl o'r atebion a dderbyniwyd ynglŷn â'r ddarpariaeth o gyfleusterau toiledau yn agos at wasanaethau, mannau gwyrdd ac mewn perthynas ag arwahanrwydd cymdeithasol, gweithgareddau corfforol a gweithgareddau dydd i ddydd fel siopa, yn ein Hasesiad o Angen.

Mae rhai o'r camau a awgrymir i geisio cwrdd â'r angen a aseswyd isod:

DRAFT

Cyfleusterau glân, diogel ac wedi eu cadw'n dda

- Bydd CBS Torfaen **yn adolygu gweithgareddau a safonau glanhau** yn achlysurol er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithlon ac effeithiol gyda'r adnoddau sydd ar gael.
- Bydd ein Tîm Diogelwch Cymunedol **yn parhau i weithio gyda'r Heddlu, trigolion, grwpiau cymunedol ac eraill pan fo'r angen,** er mwyn sicrhau bod cyfleusterau mor ddiogel â phosibl.
- Am nifer o resymau amgylcheddol, diogelwch ac ariannol, mae rheolaeth effeithiol ar wresogi, goleuo ac ystyriaethau eraill mewn cyfleusterau toiled yn hanfodol. Bydd CBS Torfaen **yn parhau i reoli'n cyfleusterau'n effeithiol yn hyn o beth.**

Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno bydd y camau yma'n rhoi toiledau cyhoeddus glân, diogel wedi eu cynnal yn dda?

Cyfleusterau hygyrch i bawb, ym mhob lleoliad ymarferol

- Bydd toiledau mewn **nifer o adeiladau CBS Torfaen ac adeiladau yn y Cynllun Toiledau Cymunedol yn cael eu hybu ar gyfer defnydd cyhoeddus.** Am resymau diogelwch ni fydd toiledau mewn adeiladau fel ysgolion, cartrefi gofal ac adeiladau ble mae yna bryderon diogelwch sylweddol, yn cael eu cynnwys.
- Mae CBS Torfaen yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau priodol, hygyrch ac effeithiol i bob rhan o'r gymuned cyfleusterau heb ragfarn na thuedd. Byddwn yn **gwneud mwy i amlygu toiledau hygyrch yn agos at ein blociau toiledau traddodiadol ym Mhont-y-pŵl nad sy'n cynnwys toiled hygyrch.**
- Mae'r ymatebion yma'n gwneud achos cryf dros werthfawrogi pwysigrwydd y cyfleusterau presennol a **chydnabod bod modd gwneud mwy** i wneud amgylcheddau hamdden yn fwy hygyrch, **a byddwn yn ystyried hyn pan fyddwn yn ymgysylltu gyda'r busnesau** sydd ar y cyfan yn darparu'r math yma o fannau cyfarfod.
- Bydd y map cenedlaethol ar-lein o gyfleusterau toiled yng Nghymru ar gael yn ystod 2019/20. Bydd y **map yma'n cael ei hybu'n helaeth gan CBS Torfaen** ac awdurdodau lleol eraill fel bod gan bobl wybodaeth well ynglŷn â lleoliad a hygyrchedd cyfleusterau. Bydd materion sydd wedi eu codi mewn perthynas â chymudo yn cael eu hystyried pan fydd y Strategaeth y cael ei adolygu yn 2021.

Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno bydd y camau yma'n cefnogi ac yn gwella mynediad i doiledau?

DRAFT

Ystyriaethau Daearyddol

- Roedd yna neges glir gan y rhai a ymatebodd i'n harolwg bod darpariaeth cyfleusterau toiledau ym Mhont-y-pŵl yn annigonol, naill ai oherwydd nad yw toiledau ar gael ar rai adegau, neu'n gyffredinol yn annigonol o ran eu darpariaeth.

  Byddwn yn adolygu:

  - **Amserau agor cyfleusterau ym Mhont-y-pŵl a sut allwn ni ddarparu toiled hygyrch yn agos at ganol Pont-y-pŵl.**
  - **Y cyfleusterau ym mhob lleoliad i weld a oes modd gwneud gwelliannau, er enghraifft ychwanegu gorsafoedd newid babanod, gwella'r ddarpariaeth neu ehangu ciwbiclau.**

- Derbyniodd ein Harolwg Toiledau Lleol a'r ymgysylltiad cysylltiol er mwyn datblygu'r Strategaeth hon rhai sylwadau ynglŷn â chau yn y gorffennol /diffyg cyfleusterau mewn rhai mannau. Er nad yw'n bosibl i'r awdurdod lleol ail-agor cyfleusterau, **byddwn yn ceisio ymgysylltu â busnesau a sefydliadau gyda'r bwriad o'u cael i ymuno â'r Cynllun Toiledau Cymunedol**. Serch hynny, nid oes busnesau neu wasanaethau cyhoeddus i ni fynd atyn nhw ym mhob ardal ble mae yna ddiffyg toiledau.
- I bobl sydd angen defnydd aml neu frys o doiled, rydym yn credu bydd y **map toiledau cenedlaethol a hybu'n lleol y cyfleusterau sydd ar gael**, yn golygu bydd pobl yn gallu cynllunio'u mynediad i fannau agored, parciau a chyfleusterau hamdden yn well.

Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno bydd y camau yma'n gwella mynediad i doiledau yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn Nhorfaen?

CADW CYFLEUSTERAU PRESENNOL CBS TORFAEN

Does dim cynlluniau ar hyn o bryd i gau unrhyw un o'r cyfleusterau sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol nac i leihau'r gyllideb sydd ar gael. Serch hynny, os bydd angen yn y dyfodol i'r cyngor ail-ystyried ei sefyllfa oherwydd pwysau yn y gyllideb, bydd y strategaeth hon yn rhoi dull o weithio gyda phartneriaid i ddarparu cyfleusterau amgen.

GWEITHIO GYDA PHARTNERIAID YN Y GWASANAETHAU CYHOEDDUS A BUSNESAU LLEOL

- Dros y ddwy flynedd nesaf **byddwn y gweithio gyda phobl leol i fynd at fusnesau i drafod ffyrdd o wneud eu toiledau i gwsmeriaid yn hygyrch i bawb**.
- Byddwn **yn adfywio ac yn ail-lansio'n Cynllun Toiledau Cymunedol** ac yn **cyflwyno arwyddion newydd sydd wedi eu cynhyrchu gan Lywodraeth**

Cymru. Bydd gofyn i **leoedd sy'n cymryd rhan i arddangos sticer mewn lle amlwg** (h.y. wrth y fynedfa, neu mewn ffenestr os yw'n fwy gweladwy), sy'n dangos bod y toiledau ar gael i'r cyhoedd. Bydd y sticer yn arddangos y logo canlynol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi ei ddatblygu ar ôl ymgynghoriad gyda nifer o sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl â nam ar eu golwg ac anghenion hygyrchedd eraill:

- Yn lleol byddwn **yn edrych ar gyflwyno sticeri am ddim** fel ateb di-gost / cost isel yn ogystal â'r logo uchod, **gan bwysleisio bod a) toiled hygyrch, a b) safle newid babanod ar gael**.

Cwestiwn 4 yr Ymgynghoriad 4: Ydych chi'n credu bydd gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill a busnesau preifat yn cefnogi ac yn gwella mynediad i doiledau ?

MAP AR-LEIN O GYFLEUSTERAU (CYMRU GYFAN)

Mae mapio lleoliadau yn rhan bwysig o'n Strategaeth. Rydym am i bobl sydd angen ymweld â thoiled allu cael gwybodaeth yn hawdd ynglŷn â lleoliad, amserau agor, hygyrchedd a'r math o gyfleusterau sydd ar gael.

Mae CBS Torfaen eisoes yn darparu gwybodaeth ar doiledau yn Nhorfaen ar ein gwefan: https://www.torfaen.gov.uk/cy/RoadsTravelParking/StreetCareandCleaning/Publicconveniences/PublicaccesstotoiletsinTorfaen.aspx

Tra bod y ddogfen hon ar gael ar ffurf hygyrch i nifer, rydym yn croesawu'n fawr penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i greu, gyda chefnogaeth awdurdodau lleol, map ar-lein o'r holl gyfleusterau toiled presennol sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru. Bydd y map yma nid yn unig yn helpu pobl i gael hyd i doiledau lleol ond hefyd yn cymryd y straen allan o gynllunio teithiau i leoedd pellach. Bydd CBS Torfaen **yn darparu gwybodaeth gyfredol i sicrhau bod yr holl doiledau yn Nhorfaen yn cael eu cynnwys ar y map cenedlaethol hwn**.

Byddwn yn **darparu dolen uniongyrchol at y map cenedlaethol ar ein gwefan**, pan fydd ar gael. Y ddolen i borthol Lle a fydd yn cynnal y map yw: http://lle.gov.wales/home

Bydd CBS Torfaen **yn sodro'r map a gyflunnir yn lleol i'n gwefan ein hunain**. Byddwn hefyd yn dangos dolen i'r map cenedlaethol, er mwyn cynorthwyo pobl i chwilio am doiledau mewn ardaloedd eraill y gallan nhw fod yn ymweld â nhw.

DRAFT

Gan bydd y data a ddarperir gan awdurdodau lleol ar gael fel data agored, bydd ar gael i'w ddefnyddio gan drydydd partïon, gan gynnwys datblygwyr apiau. Rydym felly'n disgwyl y bydd apiau newydd yn cael eu creu ac bydd gwelliant yng nghywirdeb apiau trydydd parti y mae nifer ohonynt ar gael eisoes.

Byddwn yn **adolygu'n rheolaidd y cyfleusterau sydd wedi eu cynnwys** o leiaf pob dwy flynedd, yn unol â'n hadroddiadau cynnydd a'n cyfnodau adolygu Strategaeth, fel sy'n cael eu nodi ar dudalen 21. Os glywn am newidiadau yn y modd y mae cyfleusterau ar gael, fel cau neu newidiadau i amserau agor, neu fusnesau newydd yn caniatáu defnydd, **byddwn yn diweddaru'r wybodaeth mewn da bryd** yn hytrach nag aros tan y dyddiad adolygu.

Cwestiwn 5 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno y bydd y mapiau cenedlaethol a lleol yn gwella mynediad i doiledau ?

GWYBODAETH A HYRWYDDO CYFLEUSTERAU LLEOL

Bydd ein cynlluniau i ddarparu map manwl o doiledau - gan gynnwys toiledau hygyrch, cyfleusterau Changing Places a chyfleusterau newid babanod – yn gwella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn sylweddol. Yng Ngwanwyn/Haf 2019 byddwn yn cynnal ymgyrch hyrwyddol i godi ymwybyddiaeth o'r map a'r toiledau sydd ar gael ac sydd wedi eu nodi trwy'r gwaith yma.

Byddwn yn:

- **cynhyrchu taflenni (ac yn eu cyhoeddi ar ein gwefan fel dogfennau y mae modd eu lawrlwytho fel bod modd eu diweddaru'n rheolaidd) sy'n rhoi gwybodaeth a lleoliad toiledau:**
- **gweithio gyda phartneriaid priodol fel y bwrdd iechyd lleol a meddygfeydd teulu i wella mynediad i'r deunyddiau yma i bobl â chyflyrau amrywiol sy'n effeithio'r coluddyn neu'r bledren.**
- **gofyn i fusnesau sy'n gwerthu Allweddi Radar i roi'r ddolen ar y we i'r rheiny sy'n prynu.**
- **gofyn i fusnesau sy'n gwerthu cyfarpar mudoledd i roi'r ddolen ar y we i'r rheiny sy'n prynu.**

Cwestiwn 6 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno y bydd cynhyrchu a hybu taflenni ar-lein yn gwella gwybodaeth a mynediad i doiledau?

Arwyddion

Mae Cymdeithas Toiledau Prydain yn argymell bod arwyddion yn cael eu gosod ar y tu allan i doiledau gyda gwybodaeth fel oriau agor, gwybodaeth ar gyfer cysylltu ynglŷn â phroblemau a'r cyfleusterau penodol sydd ar gael y tu mewn, fel a oes ystafell newid babanod. Dangosodd ein Hasesiad o Angen hefyd angen am

wybodaeth am gyfleusterau amgen cyfagos y mae modd mynd iddyn nhw pan fo cyfleuster ar gau.

Byddwn felly yn:

- **chwilio am ffyrdd i gynhyrchu arwyddion dwyieithog pellach sy'n cynnwys y wybodaeth, ar bob toiled cyhoeddus sy'n eiddo i ac yn cael eu rhedeg gan CBS Torfaen.**
- **Cefnogi'r rheiny sy'n cymryd rhan yn ein Cynllun Toiledau Cymunedol i ddarparu'r un wybodaeth, os oes lle, gan ddefnyddio ein harwyddion fel templed cyson.**

Cwestiwn 7 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno y dylem edrych ar ffyrdd o wella'r arwyddion y mae'r awdurdod lleol yn darparu ar doiledau? Ac a ddylem ni annog sefydliadau eraill a busnesau preifat i arddangos yr arwyddion yma?

DATBLYGIADAU YN Y DYFODOL

Darpariaeth Niwtral o ran Rhywedd

Dylai unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol sy'n cynnwys toiledau sy'n hygyrch i'r cyhoedd ofyn am arweiniad oddi wrth CBS Torfaen, mewn cysylltiad â sefydliadau cydraddoldeb ac amrywiaeth, er mwyn sicrhau bod datblygiadau'n cwrdd ag angen ein cymunedau LHDTh+. Byddwn yn **annog y ddarpariaeth o giwbiclau unigol sy'n niwtral o ran rhywedd mewn adeiladau newydd**.

Ystyriaethau Amgylcheddol

Ble mae toiled newydd a/neu gyfleusterau newid babanod yn cael eu creu, dylid rhoi ystyriaeth i ddefnydd o ynni ac effaith amgylcheddol y cyfleusterau. Dylid ystyried opsiynau fel toiledau gwrtaithadwy, goleuo heulol a ffactorau fel effeithlonrwydd fflysio.

Dylai datblygwyr sy'n ceisio caniatâd cynllunio ystyried yn ofalus atebion cynaliadwy ac amgylcheddol-gyfeillgar a dylai pob darparwr toiledau a chyfleusterau newid babanod ystyried effaith amgylcheddol eu cyfleusterau a dylent wneud popeth o fewn eu gallu i leihau effaith amgylcheddol.

Byddwn **yn annog hyrwyddo ystyriaethau amgylcheddol mewn perthynas ag adnewyddu toiledau presennol ac ar gyfer darpariaeth newydd**.

Cwestiwn 8 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n credu y dylem annog a hybu (a) darpariaeth sy'n niwtral o ran rhywedd? (b) ystyriaethau amgylcheddol?

DRAFT

YMGYNGHORIAD A CHRAFFU

Ar gyfer y Strategaeth drafft yma, byddwn yn ymgynghori gydag aelodau'r cyhoedd trwy dudalennau ymgynghori'r Cyngor ar y we, trwy ein Swyddogion Ymgysylltiad a Chymryd Rhan a staff rheng flaen pan fo hynny'n bosibl o ran eu dyletswyddau dydd i ddydd. Byddwn y gofyn i'n partneriaid yn y Bwrdd Iechyd, Cymdeithasau Tai, Cynghorau Tref a Chymuned, Gwasanaethau yn y Trydydd Sector, Gwasanaethau'r Heddlu a Thân i hybu'r Strategaeth drafft hon ac yn annog pobl i roi eu barn.

Byddwn yn ystyried barn pobl wrth gwblhau'r Strategaeth hon.

Bydd Panel Craffu Trawsbynciol y Cyngor yn craffu ar y gwaith yr ydym wedi ei wneud i gynhyrchu Strategaeth drafft hon yn ogystal â'r ddogfen ei hun. Byddwn yn ystyried unrhyw argymhellion o'r panel Craffu yn y ddogfen derfynol.

Bydd y strategaeth derfynol yn rhoi manylion am y broses yr ydym wedi ei dilyn a'r bobl yr ydym wedi ymgynghori â nhw, yn ogystal â chrynodeb o'u hymatebion.

ADOLYGU, ADRODD A DIWYGIO

Mae'r Ddeddf yn gofyn bod awdurdodau lleol yn ymgymryd ag adolygiadau rheolaidd o'r Strategaeth leol ac yn rhoi adroddiadau cynnydd. Dylid gwneud y rhain ar gylchdro o ddwy flynedd, ac eithrio pan fod yna etholiad awdurdod lleol cyffredinol ac mewn sefyllfa felly dylid adolygu o fewn blwyddyn i'r etholiad a dylid naill ai ail-ddrafftio'r Strategaeth neu dylid rhoi adroddiad cynnydd dros dro.

Mae'r amserlen ar gyfer ein cylchdro adolygu ac adrodd arfaethedig yn y tabl isod:

Adolygiad statudol ac adroddiad cynnydd dros dro ar gyfer y cyfnod 30ain Mai 2019 hyd 30ain Mai 2021.	Mehefin i Hydref 2021
Sicrhau cymeradwyaeth gan y Cabinet a chyfieithu i'r Gymraeg	Hydref a Thachwedd 2021
Cyhoeddi adroddiad cynnydd dros dro (dwyieithog) ar y wefan	30ain Tachwedd 2021
Adolygu o fewn un flwyddyn o etholiad awdurdod lleol (5ed Mai 2022).	Erbyn 4ydd Mai 2023
Os oes newidiadau i'r Strategaeth, ail-gyhoeddi'r ddogfen a gymeradwywyd yn llawn (dwyieithog).	Erbyn 3ydd Tachwedd 2023
Os nad oes newidiadau i'r Strategaeth, paratoi adroddiad cynnydd dros dro ar gyfer 22ain Tachwedd 2022 hyd 22ain Tachwedd 2024.	Rhagfyr 2024 i Ebrill 2025
Sicrhau cymeradwyaeth gan y Cabinet a chyfieithu i'r Gymraeg	Ebrill / Mai 2025
Cyhoeddi adroddiad cynnydd dros dro (dwyieithog) ar y wefan	Erbyn 22ain Mai 2025
Ailadrodd i broses adolygu hon a chynhyrchu datganiadau cynnydd dros dro pob 2 flynedd neu o fewn blwyddyn o etholiad awdurdod lleol	

DRAFT

CAMAU NESAF

Byddwn yn ymgynghori ar y strategaeth drafft am 12 wythnos (o 15fed Tachwedd 2018 hyd 7fed Chwefror 2019). Yn ystod y cyfnod ymgynghorol o 12 wythnos, byddwn yn diweddaru'r cynnwys o ran y cynnydd sy'n digwydd gyda'r mapio cenedlaethol ac unrhyw wybodaeth bellach ar gyfleusterau toiledau lleol. Byddwn yn ystyried argymhellion gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ac ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn trwytho'r cynnwys terfynol.

Cyflwynir y strategaeth derfynol i'r Cabinet yn Ebrill 2019.

Bydd y ddogfen yn cael ei fformadu ar gyfer ei chyhoeddi; bydd fersiwn hawdd ei darllen yn cael ei datblygu; bydd y ddwy ddogfen yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.

Bydd dogfennau'r Strategaeth a'r asesiad o Anghenion Toiled yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ar 30ain Mai 2019.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad:

Ar-lein yn: https://getinvolved.torfaen.gov.uk/pssu/localtoiletsstrategy2018

Trwy ddigwyddiadau ymgynghoriad.

Trwy gopi caled ac mae arolygon ar gael o:

Steven Honeywill

Swyddog Partneriaeth a Polisi

Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus

Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl. NP4 6YB

Ffôn : 01495 766958

E-bost : steven.honeywill@torfaen.gov.uk

Y dyddiad cau yw 7fed Chwefror 2019.

DRAFT

ATODIADAU

Atodiad 1: Asesiad Anghenion Toiledau Torfaen

Atodiad 2: Data Mapio (hyd yn hyn) – Toiledau adnabyddwyd yn Nhorfaen

CYFEIRNODAU

[1] Holt-Lunstad, 2015 / Hawkley et al, 2010
https://www.ahsw.org.uk/userfiles/Research/Perspectives%20on%20Psychological%20Science-2015-Holt-Lunstad-227-37.pdf

[2] Deddf Iechyd Cyhoeddus Cymru – Rhan 8
https://gov.wales/topics/health/nhswales/act/publictoilets/?skip=1&lang=cy

[3] Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen 2017
http://www.torfaenpublicservicesboard.co.uk/cy/Documents/Assessment-of-Well-being/Part-1-Torfaen-Well-being-Assessment.pdf

[4] Asesiad Anghenion y Boblogaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent 2017
http://www.bprgwent.cymru/population-needs-assessment

[5] Ymchwil y Bledren a'r Coluddyn https://psnc.org.uk/south-staffordshire-lpc/wp-content/uploads/sites/95/2015/02/BowelProblems.pdf

[6] Astudiaeth Gweithrediad Gwybyddol a Heneiddio - Cymru
http://www.cfas.ac.uk/cfas-wales/

DRAFT